



YN Y GEGIN

## Cawl cennin a thatws

Mae cawl yn hawdd i'w wneud ac mae'n bryd blasus ac iachus i lenwi boliau'r teulu i gyd. Mae mathau diddiwedd i'w gwneud, ond dyma un i ddechrau.

### Cynhwysion:

- 3-4 cenhinen fawr (wedi'u torri)
- 2 daten (wedi'u pilio a'u torri)
- 1-1½ pint o stoc (llyisiau neu gyw iâr)
- Ychydig o lefrith
- Halen a phupur i flasau

# YN Y GEGIN - Cawl cennin a thatws

## Byddwch hefyd angen:

- Sosban fawr gyda chaead
- Blendiwr llaw neu brosesydd bwyd

## Dull:

- Cynheswch sosban ac ychwanegwch y cennin a'r tatws a gadael iddynt feddalu am ychydig funudau
- Ychwanegwch y stoc i'r sosban a'i orchuddio
- Gadewch iddo fudferwi am tua 30 munud, neu nes bo'r cennin a'r tatws wedi coginio
- Gan ddefnyddio blendiwr llaw, neu brosesydd bwyd, cymysgwch y cawl nes ei fod yn llyfn, gan ychwanegu ychydig o lefrith a halen a phupur

**AWGRYM**

**GWYCH:**

Gweinwch yn gynnes, gyda bara neu frechdan

